Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Yr Eifl
Trefor
Caernarfon
Gwynedd
LL54 5LU

11/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Yr Eifl yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol, gan gynnwys sut i wella eu gwaith eu hunain

- Mae'r pennaeth a'r staff wedi cydweithio'n bwrpasol i ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol.
- Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymgymryd â chyfrifoldebau am agweddau o waith yr ysgol sy'n bwysig iddyn nhw, gan gynnwys gofalu am ieir yr ysgol a rheoli gwerthiant yr wyau. Maent yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ynghylch defnyddio'r elw, er enghraifft i wella ardaloedd allanol yr ysgol. Mae hyn yn datblygu eu medrau menter a'u hymdeimlad o berchnogaeth yn fwriadus.
- Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at gynllunio'r hyn maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Ar ddechrau pob tymor, mae disgyblion yn trafod yr hyn maent yn ei wybod yn barod a mynegi sut yr hoffent ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb ac yn hybu eu hymrwymiad i'w dysgu.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae adborth rheolaidd athrawon yn cefnogi disgyblion i ddeall y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn myfyrio'n fwriadus ar eu gwaith ac yn gwneud gwelliannau pwrpasol, yn enwedig wrth fireinio ansawdd eu hysgrifennu.
- Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant, sy'n eu cefnogi i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o'u targedau gwella. Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i gryfhau ymhellach gyfranogiad disgyblion wrth bennu a gwerthuso'r targedau hyn, fel eu bod yn datblygu eu cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

## Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn arwain at flaenoriaethau miniog

- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod briodol o weithgareddau monitro, fel teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion, arsylwi ar wersi a dadansoddi holiaduron disgyblion. Mae canfyddiadau'r gweithgareddau hunanwerthuso hyn yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol, ynghyd â'r agweddau pwysicaf i'w gwella.
- Mae'r pennaeth yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddeallus ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fwriadus fel rhan annatod o'r broses hunanwerthuso. Mae hyn yn helpu'r ysgol i adnabod meysydd penodol ar gyfer gwella a phennu cyfeiriad strategol clir.
- Trefnir cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i staff sy'n cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad o berchnogaeth, ansawdd yr addysgu, ac yn enwedig y cynnydd a wneir gan ddisgyblion wrth ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg.
- Mae arweinwyr yn dadansoddi canfyddiadau holiaduron disgyblion yn effeithiol ac yn ymateb yn briodol.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod barn rhieni yn cael ei hystyried yn systematig fel rhan o drefniadau gwerthuso'r ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612111

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol